## Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2001-02

1. O dan Adran 113(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud Cynllun "yn nodi sut mae'r Cynulliad, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu cynnal a hybu llywodraeth leol yng Nghymru." Mae hefyd yn ofynnol i'r Cynulliad baratoi adroddiad ar ôl pob blwyddyn ariannol ar sut y cafodd ei gynigion yn y Cynllun eu gweithredu dros y flwyddyn ariannol honno. Cytunwyd ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2000. Dyma'r ail adroddiad ar y broses o weithredu'r Cynllun.

### Penodau 1 a 2: Cyflwyniad a Phartneriaeth

2. Mae'r penodau hyn yn nodi themâu a gobeithion cyffredinol y sonnir amdanynt yn fanylach mewn penodau diweddarach ac y ceir adroddiadau arnynt o dan y penawdau hynny.

### Pennod 3: Cytundebau Polisi

***bydd cynlluniau gwariant sy'n cwmpasu cyfnodau o'r fath yn galluogi llywodraeth leol i gynllunio eu rhaglenni'n effeithiol***

3. Cyflwynwyd cytundeb llywodraeth leol 2002-03 dros 3 wythnos yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol, yn unol â dymuniadau llywodraeth leol a fynegwyd drwy'r Cyngor Partneriaeth.

***Cytundebau Polisi***

4. Cytunwyd ar Gytundebau Polisi â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r Grant Cymell Perfformiad gwerth £10 miliwn wedi cael ei ddosbarthu ar sail fformiwla RSG.
5. Cytunwyd ar y gwaelodlinau a'r targedau ym meysydd polisi allweddol cyrhaeddiad addysgol, canlyniadau gwasanaethau cymdeithasol, ailgylchu a gwrteithio, a symudiad moddol mewn trafnidiaeth. Serch hynny, byddant yn agored i adolygiadau blynyddol a allai arwain at newidiadau i dargedau (naill ai'n uwch neu'n is) y cytunwyd arnynt ar y cyd, lle bo angen, er mwyn ymateb i'r amgylchiadau newydd.

6. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod i gytundeb â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brotocol ar gyfer gwerthuso'r cytundebau polisi. Defnyddir hwn fel sail ar gyfer asesu perfformiad yn ystod 2002-2003 a bydd yn hysbysu pob awdurdod o'r gyfran o'r Grant Cymell Perfformiad gwerth £30 miliwn a ddyrennir iddo yn 2003-2004.

***rhoi cymaint o rym â phosibl i'r awdurdodau benderfynu sut i wario'r arian sydd ar gael iddynt***

7. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cytundeb refeniw heb ei glustnodi i lywodraeth leol ar gyfer 2001-02 a 2002-03.

**Pennod 4: Rôl yr Awdurdodau Lleol fel Arweinwyr Cymunedol**

***darparu'r fframwaith sy'n cynorthwyo llywodraeth leol***

Ar 1 Mawrth 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y datganiad polisi "Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol" sy'n pennu ei weledigaeth ar gyfer llywodraeth leol a'r fframwaith polisi ar gyfer ei chyflawni.

***4.2 Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi awdurdodau lleol i gydweithio ag eraill, gan gynnwys y sector preifat a'r sector gwirfoddol a chynghorau cymuned, er mwyn datblygu strategaethau lleol (cynlluniau cymunedol) i hybu lles y gymuned. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei asiantaethau gweithredol a'r cyrff a noddir ganddo yn cydweithredu â llywodraeth leol i baratoi cynlluniau cymunedol, canolbwyntio ar y problemau a'r cyfleoedd a nodir ynddynt, ac ystyried y cynlluniau hynny o ddifrif wrth roi blaenoriaethau'r Cynulliad ar waith. Bydd y Cynulliad, wrth gynghori ei asiantaethau gweithredol a'r cyrff a noddir ganddo, yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio ag eraill ac yn mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â phroblemau a chyfleoedd. Bydd y Cynulliad yn disgwyl i'r strategaethau lleol adeiladu ar y partneriaethau rhwng awdurdodau lleol cyfagos a bydd yn cynorthwyo i ddatrys materion sy'n peri pryder yn y rhanbarth. Mae gan gynghorau cymuned a chynghorau tref hefyd rôl bwysig i'w chwarae i nodi anghenion a chyfleoedd lleol, dangos arweiniad ac annog pobl ac asiantaethau lleol i ddiwallu'r anghenion hynny a manteisio ar gyfleoedd drwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau.***

8. Cyhoeddwyd canllawiau'r Cynulliad ar baratoi strategaethau cymunedol ym mis Awst 2001. Cafodd pwysigrwydd strategaethau cymunedol ei gyfleu i Brif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae cyfres o seminarau rhanbarthol wedi cael eu trefnu ledled Cymru i rannu profiadau ac arfer da, gyda chynrychiolwyr o'r holl gyrff perthnasol yn cymryd rhan ynddynt.

***partneriaethau sector cyhoeddus-preifat***

9. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn ystod trafodaeth y cyfarfod llawn ar 31 Rhagfyr 2001, gasgliadau'r broses ymgynghori ar Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus (PPP) a Mentrau Cyllid Preifat (PFI) yng Nghymru. Bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth y Cynulliad o ran defnyddio Partneriaethau Preifat Cyhoeddus a Mentrau Cyllid Preifat yng Nghymru.
10. Dylai trefniadau o'r fath dibynnu ar ddiddordeb y cyhoedd mewn ansawdd gwasanaethau cyhoeddus;
11. Dylai'r berthynas â'r sector preifat fod yn seiliedig ar bartneriaethau sy'n gwella gwasanaethau yn hytrach na threfniadau i fanteisio ar gyllid yn unig;
12. Caiff buddiannau'r staff eu cynnal o leiaf a bydd y partneriaethau rhwng pobl sy'n cydweithio i wasanaethu'r cyhoedd yn gwella yn hytrach na gwaethygu.
13. Er mwyn rhoi delwedd unigryw i Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus a'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru ac er mwyn ymateb i'r broses ymgynghori, bydd yn cael ei adnabod fel "Buddsoddi drwy Bartneriaeth Cymru".
14. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio lleihau biwrocratiaeth Menter Cyllid Preifat a gwella'r modd y caiff adnoddau eu cydlynu o fewn Llywodraeth y Cynulliad er mwyn darparu gwell gwasanaeth.
15. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi unarddeg o gynlluniau awdurdod lleol â chredydau Menter Cyllid Preifat. Mae cynlluniau Ysgol Penweddig ac Ysgol Gynradd Doc Penfro eisoes ar waith. Mae un prosiect arall ar y gweill, tra bo un cytundeb arall newydd gael ei lofnodi.

**Pennod 5: Moderneiddio Llywodraeth Leol Cymru**

***moderneiddio strwythurau rheoli gwleidyddol, archwilio perfformiad yn fanwl a mabwysiadu'r safonau uchaf posibl o ran gonestrwydd***

16. Yn dilyn creu deddfwriaeth y Cynulliad o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2001 ar 21 Mehefin 2001, mae strwythurau gwleidyddol newydd wedi cael eu cymeradwyo ym mron pob sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Dylai'r rhain eu galluogi i wneud penderfyniadau mewn modd mwy effeithiol, tryloyw ac atebol.
17. Daeth y deg offeryn statudol o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n gysylltiedig â fframwaith moesol newydd i rym ar 28 Gorffennaf 2001. Roedd gan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol tan 21 Rhagfyr 2001 i fabwysiadu eu cod ymddygiad, sef chwe mis ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Os nad oeddent wedi gwneud hynny erbyn y dyddiad hwn, byddai'n rhaid iddynt fabwysiadu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Roedd yn rhaid i'r aelodau gadw at y Cod Ymddygiad Enghreifftiol o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Dylai'r pwyllgorau safonau fod wedi cael eu sefydlu a dylent fod wedi cwrdd o leiaf unwaith erbyn 31 Rhagfyr 2001. O hynny ymlaen, rhaid iddynt gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

***adolygu perfformiad***

18. Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru asesiad o'r modd y cafodd gwerth gorau ei weithredu yng Nghymru. Roedd yr asesiad yn derbyn bod egwyddorion allweddol gwerth gorau, proses gref ar gyfer adolygu gwasanaethau, gwella parhaus, sicrhau amcanion, a darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd, yn parhau i fod yn egwyddorion polisi pwysig a dilys.
19. Fodd bynnag, roedd yr asesiad yn nodi bod egwyddorion gwerth gorau cael eu bodd gan fiwrocratiaeth y broses gwerth gorau, ac nad oedd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n gwella'n barhaus, sy'n gost effeithiol ac sydd o ansawdd uchel.
20. I ymateb i hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bartneriaid yn y Grp Prosiect Gwerth Gorau wedi datblygu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (gweler isod).

***gwirio effeithiol ar y tu allan***

21. Ymatebodd y Grp Prosiect Gwerth Gorau i'r asesiad gwerth gorau drwy argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar waith.
22. Bwriad y Rhaglen yw darparu fframwaith polisi lle bydd Rhaglen wedi'i harwain gan Lywodraeth Leol yn disodli'r holl fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r system gwerth gorau flaenorol, a'r diffyg tystiolaeth o well gwasanaethau o ganlyniad i hynny. Ceir sicrwydd cadarn bod y broses hunan-asesu yn gyfreithlon, a bydd y Rhaglen yn caniatáu i'r awdurdod ganolbwyntio ar y meysydd gwasanaeth hynny sydd angen eu gwella fwyaf, a lle gellir gweld y manteision mwyaf o ran gwasanaethau.
23. Bydd y Dadansoddiad Awdurdod-cyfan, sydd wrth galon Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, yn darparu dadansoddiad manwl o allu'r awdurdodau i wella, a bydd hefyd yn arwain at gynnal asesiad risg o'r meysydd gwasanaeth hynny sydd angen y sylw mwyaf.

***darparu system annibynnol ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelodau etholedig***

24. Bydd yr holl honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael eu harchwilio'n fanwl gan y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Penderfyniad y Comisiynydd yw a ddylid archwilio cwynion ymhellach a ph'un a ddylai ei swyddfa ef neu Swyddog Monitro'r awdurdod dan sylw gynnal yr ymchwiliad. Penderfynir ar y camau gweithredu priodol i'w cymryd ar ôl yr ymchwiliad gan y Pwyllgorau Safonau, y bydd o leiaf hanner eu haelodau'n annibynnol, neu gan Banel Dyfarnu Cymru - corff cyhoeddus annibynnol.

***cyflwyno Cynllun y Disgleiriaf er mwyn annog arloesi, cydnabod perfformiad rhagorol a lledaenu arfer da***

25. Nid oes unrhyw Gynllun y Disgleiriaf ffurfiol ar waith ar hyn o bryd, ond mae Cymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu "Cynllun Rhagoriaeth" i gynorthwyo'r Agenda ar gyfer Gwella Llywodraeth Leol, a chaniatáu i enghreifftiau o ragoriaeth gael eu rhannu â phob agwedd ar lywodraeth leol.

***pwerau ymyrryd o dan Adran 15 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol.***

26. Mae'r Protocol Ymyrraeth, a'r egwyddorion sy'n sail iddo, yn parhau i fod ar waith. Mae'n bwysig fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y gallu i gymryd camau yn ôl y galw, ond mae pwyslais Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gymorth ar gyfer gwellayn awgrymu mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir defnyddio ymyrraeth.

**Pennod 6: Trafod ac Ymgynghori â Llywodraeth Leol**

***Y Cyngor Partneriaeth a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai***

27. Mae'r Cyngor Partneriaeth wedi cwrdd 12 o weithiau (ers mis Ebrill 2002) ers ei gyfarfod swyddogol cyntaf ar 11 Hydref 1999 (cynhaliwyd cyfarfod ? i gadarnhau'r gweithdrefnau ar 22 Gorffennaf 1999). Cynhaliwyd pump o'r cyfarfodydd hynny y tu allan i Gaerdydd: yn Wrecsam, Hwlffordd, Llandudno, Casnewydd a Llanelli.
28. Sefydlwyd is-grwp technegol o'r Fforwm Ymgynghori ar Gyllid i wneud y gwaith paratoi ar gyfer ailwerthuso'r Dreth Gyngor yn 2005.
29. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cwrdd bob pythefnos. Caiff pwyntiau gweithredu'r Cyngor Partneriaeth eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am weithgareddau'r Cyngor Partneriaeth a chydlynu rhywfaint ar y pwnc. Gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru roi tystiolaeth i amrywiaeth o bwyllgorau'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau ar yr adolygiad polisi o adfywio cymunedol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac ar yr adolygiad o'r Iaith Gymraeg i'r Pwyllgor Diwylliant.

***ymgynghori rheolaidd ac agored***

30. Ymgynghorwyd yn llawn cyn cyflwyno darpariaethau pellach o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sef fersiwn newydd y Cod ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol a chanllawiau ar lwfansau cynghorwyr.
31. Cynhaliwyd unrhyw brosesau ymgynghori a oedd yn para llai na 8 wythnos ar ôl cael cytundeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
32. Ymgynghorwyd ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â pholisïau trethi lleol a gweithredu is-ddeddfwriaeth.

***cyfnewid gwybodaeth***

33. Crewyd Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ym mis Ebrill 2001, o fewn Syniad, ac mae wedi llwyddo i fabwysiadu amrywiaeth o gyfrifoldebau casglu data a chynghori yn ei flwyddyn gyntaf. Mae ganddi bellach tua 18 aelod o staff ac o fis Ebrill 2002 ymlaen, fe'i sefydlwyd fel cwmni ar wahân cyfyngedig drwy warant. Mae'r Uned bellach yn cael ei hadnabod fel adnodd canolog allweddol o fewn llywodraeth leol, ac yn fwy cyffredinol, fel y brif ffynhonnell o wybodaeth ystadegol ar swyddogaethau llywodraeth leol

***cynghorau tref a chymuned***

O ganlyniad i gynnig gan y Cyngor Partneriaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaeth ymchwil ar gynghorau tref a chymuned i fod yn sail ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol. Mae'n cael ei chynnal gan y Grp Ymchwil i Newid a Datblygu Rhanbarthol, Athrofa Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Cychwynnodd ar 1 Ebrill 2002 a bydd yn para am flwyddyn.

***trefniadau ar gyfer cydweithredu a chydweithio***

34. .Mae cydweithredu ffurfiol ac anffurfiol agos wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â'r grwpiau gwaith y soniwyd amdanynt eisoes, mae grwpiau gwaith ar y cyd â chynrychiolwyr llywodraeth leol ac eraill ;wedi bod yn datblygu strategaethau cymunedol; yn archwilio'r ffactorau sy'n achosi gwahaniaethau mewn perfformiad ysgolion; ac yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu dull o ddefnyddio technolegau newydd i wella gwasanaethau. Un o ganlyniadau'r pwynt olaf yw bod awdurdodau lleol wedi cynhyrchu Datganiadau Llywodraeth Electronig sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwerthuso. Rhoddwyd y gallu i fenthyg £9.4 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2002-2003 a 2003-2004 er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu e-lywodraeth yng Nghymru.

35. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi darparu arian i alluogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu Uned Gydraddoldeb i gynghori awdurdodau lleol.

***rhannu datganiadau cyhoeddus***

36. Drwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cytunwyd ar brotocol estynedig ar rannu datganiadau cyhoeddus. Ble bynnag y bo modd, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol:

- 6.17 Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio cyfleu pob datganiad cyhoeddus (hysbysiadau newyddion, datganiadau a chyhoeddiadau) i gymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru yn ddim hwyrach na'r cyfryngau.
- 6.18 Dylai hysbysiadau newyddion a datganiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â llywodraeth leol gael eu rhannu â chymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru

cyn y cyfryngau. Os na ellir rhannu testun hysbysiad neu ddatganiad o'r fath yn llawn, dylai swyddfa'r wasg y Cynulliad Cenedlaethol gysylltu â'r swyddfa gyfatebol yn y gymdeithas berthnasol sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru, i'w rhybuddio ymlaen llaw bod hysbysiad neu ddatganiad ar fin cael ei ryddhau a'u hysbysu o'r cynnwys tebygol.

- 6.19 Dylai hysbysiadau newyddion a datganiadau cyhoeddus sy'n ymwneud ag awdurdod lleol unigol neu ei ardal ddaearyddol gael ei rannu â swyddog y wasg neu'r swyddogion priodol eraill yn yr awdurdod cyn y cyfryngau.
- 6.20 Pan fo datganiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â chydweithredu ar bolisïau, cyhoeddiadau neu brosiectau yn digwydd (e.e. cytundebau polisi), gellid defnyddio datganiad ar y cyd sy'n ymgorffori sylwadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r gymdeithas berthnasol sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru lle bo hynny'n briodol, yn lle dau ddatganiad i'r wasg.
- 6.21 Bydd cymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru yn cadw at y canllawiau uchod (6.17 - 6.20) wrth ddelio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried a ddylai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fabwysiadu protocol o'r fath.

***Ymweliadau gan Weinidogion a Phwyllgorau'r Cynulliad***

***6.19 Pan fo un o Weinidogion neu Bwyllgorau'r Cynulliad yn ymweld yn swyddogol ag eiddo sy'n berchen i awdurdod lleol, megis ysgol, bydd Prif Weithredwr yr awdurdod neu'r prif swyddog perthnasol yn cael ei hysbysu ymlaen llaw.***

Cafodd y swyddogion perthnasol eu hatgoffa o'r ymrwymiad hwn yn ystod y flwyddyn.

2. **Casgliad**

Mae'r bartneriaeth rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol wedi parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at gytundebau polisi, Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a'r datganiad polisi "Rhyddid a Chyfrifoldeb" sy'n datblygu'r themâu a nodwyd yn y cynllun hwn ymhellach.